# Plant sy'n dioddef oherwydd carcharu

## Pecyn Cymorth i Ysgolion - Blynyddoedd Cynnar



Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact), 29 Peckham Road, London, SE5 8UA
Rhif Elusen 219278 | Rhif Cwmni 356443

**Ar unrhyw ddiwrnod penodol yng Nghymru a Lloegr mae gan oddeutu 100,000 o blant a phobl ifanc riant yn y carchar . Nid oes cofnod statudol o'r plant yr effeithir arnynt pan anfonir un o'u hanwyliaid, gan gynnwys rhiant, i'r carchar. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer nifer y plant sy'n cael eu heffeithio arnynt gan rieni yn y carchar yn y DU mewn blwyddyn yn amrywio, gyda'r diweddaraf mor uchel â 312,000. Nid yw'r plant hyn erioed wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol ym mholisi'r llywodraeth.**

Bob dydd, mae plant yn y DU yn deffro ac yn mynd i'r ysgol ar ôl cyrch gan yr heddlu ar eu cartrefi neu weld eu rhieni'n cael eu harestio.

Bob dydd, mae rhai plant yn eistedd yn y dosbarth yn poeni am ganlyniad diwrnod yn y llys ac a fydd eu hanwyliaid yno pan fyddant yn cyrraedd adref ai peidio.

Bob dydd, mae plant yn colli'r ysgol i fynd i ymweld ag un o'u hanwyliaid yn y carchar.

Bob dydd, mae'n rhaid i blant adael eu cartref teuluol i fynd i gael gofal gan berthynas neu ofal maeth tra bo'u rhieni yn y carchar. Yn aml, gall hyn olygu newid ysgol – gan effeithio ar eu harferion, eu cyfeillgarwch a'u perthynas ag athrawon ac oedolion eraill y maent yn ymddiried ynddynt. Oherwydd stigma cymdeithasol, efallai y bydd rhai plant yn cadw cyfrinachau ynghylch lle mae mam neu dad.

Yn Pact, rydyn ni'n credu bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn haeddu cael llais. Nod y pecyn cymorth hwn yw cefnogi athrawon i rymuso plant a phobl ifanc i oresgyn y stigma, y cywilydd a'r embaras sy'n gysylltiedig â chael aelod o'r teulu yn y carchar, gan gefnogi pedwar diben cwricwlwm Cymru a chefnogi myfyrwyr i ddod yn ddinasyddion gwybodus yn foesegol.

## Mae pecyn cymorth y Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys y canlynol:

- Cynllun gwers amser cylch
- Mae llyfr "While Daddy is Away" yn sôn am ferch ifanc yr anfonwyd ei Dadi i'r carchar. Yn yr oedran hwn, mae plant yn aml yn teimlo'r effaith ar eu trefn ddyddiol pan fydd prif ofalwr yn mynd i ffwrdd yn sydyn. Yn y stori, mae'r ferch fach yn meddwl am yr holl bethau mae hi'n eu gwneud fel arfer gyda Dadi (amser cinio, amser bath) a phwy arall sydd ganddi sy'n ei charu ac sy'n gallu helpu gyda'r pethau hyn tra bydd i ffwrdd.
- Fframwaith polisi ysgol/lleoliad.
- Jig-so i gefnogi sgwrs un-i-un gydag ymarferydd am y profiad o ymweld â charchar, ac effaith yr ymweliadau hynny.

Rydyn ni'n galw ar ymarferwyr ysgolion i ddefnyddio'r cynlluniau gwersi hyn i gyflwyno pwnc carcharu i bob plentyn.

- Credwn y bydd yr adnoddau hyn yn gwneud y canlynol:
- Rhoi'r hyder i'r ymarferwyr siarad am garcharu.
- Creu gofod i'r dosbarth cyfan drafod ar bwy y gallai carcharu effeithio arnynt a sut.
- Gwneud yn siŵr bod plant sy'n cael eu heffeithio arnynt yn gwybod nad yw carcharu aelod o'r teulu'n bwnc sy'n codi cywilydd, ac mae rhai pobl eisiau gwrando ar sut maen nhw'n teimlo.
- Caniatáu i fyfyrwyr ddeall, cydymdeimlo a dod o hyd i ffyrdd o gefnogi eu cyfoedion yr effeithiwyd arnynt gan garchariad.

## Diogelu plant a phobl ifanc

Mae plant yn profi colli rhiant neu anwyliaid yn sgil carcharu mewn gwahanol ffyrdd. Efallai fod rhai wedi bod yn ymwybodol o'r gweithgarwch neu'r ymddygiad troseddol. Efallai y bydd rhai wedi bod yn dyst i arestiad trawmatig. Efallai fod rhai wedi cael eu gwarchod rhag yr arestio a'r achos llys ac ond wedi clywed am y peth ar ôl i'r person gael ei ddedfrydu. Mae teimladau o alar, euogrwydd a chywilydd yn gyffredin, yn ogystal â rhyddhad.

Wrth siarad am garcharu yn eich ystafell ddosbarth neu eich lleoliad, efallai eich bod yn ymwybodol o'r plant neu'r bobl ifanc yr effeithir arnynt. Yn yr achos hwn, rydyn ni'n eich cynghori i baratoi'r plentyn neu'r person ifanc ar gyfer y wers ymlaen llaw er mwyn iddynt allu penderfynu a ydynt yn teimlo'n barod i gymryd rhan a gwneud cynllun ar eu cyfer rhag ofn y bydd angen iddyn nhw adael yr ystafell. Gallwch drafod gyda nhw sut bydden nhw'n hoffi cael eu cefnogi wedyn a phwy maen nhw'n teimlo fyddai orau am wneud hyn. Ar gyfer plant ifanc a'r Blynyddoedd Cynnar, gellir cael gweithgareddau amser cylch un-i-un os yw hynny'n well ganddynt.

Gall lefel dealltwriaeth plant amrywio yn ôl oedran ac aeddfedrwydd emosiynol, yn dibynnu ar yr hyn maen nhw'n ei wybod am y sefyllfa. Efallai y bydd rhai rhieni neu ofalwyr yn dewis peidio ag egluro'n llawn lle mae eu hanwyliaid na pham eu bod yno. Gyda phlant iau rydych chi'n gwybod fod carchariad yn effeithio arnynt, mae'n ddefnyddiol siarad â'r rhiant neu'r gofalwr i ganfod beth mae'r plentyn yn ei wybod i osgoi gwrth-ddweud yr hyn maent wedi'i glywed gartref.

Oherwydd y stigma a'r cywilydd sy'n gysylltiedig â charcharu, mae hefyd yn eithaf posibl nad ydych chi'n gwybod am bawb yr effeithiwyd arnynt yn eich dosbarth. Gall cael cynorthwyydd addysgu neu aelod arall o staff cymorth yn yr ystafell ddosbarth gyda chi fod yn ddefnyddiol rhag ofn i blentyn fynd yn ofidus ac angen cymorth. Gwnewch le ar ôl y wers i unrhyw un a allai fod angen siarad mwy.

Ar gyfer sesiynau un-i-un dilynol, mae yna gêm fwrdd neu jig-so, y gellir ei ddefnyddio fel adnodd siarad i annog plant a phobl ifanc i siarad am ymweld â'r carchar ac, yn ei dro, i siarad am sut mae carcharu'n effeithio arnynt.

## Rhagor o adnoddau ar gyfer trafod a chefnogi

- Mae gwefan Pact yn cynnig amrywiaeth o fideos, animeiddiadau a mynediad at ein llyfr 'Locked Out: helping children cope with the imprisonment of a lovedone' - www.prisonadvice.org.uk
- Mae gwefan y Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar Blant Troseddwyr (NICCO) yn gyfeiriadur adnoddau ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol - www.nicco.org.uk
- Gwefan Llinell Gymorth i Deuluoedd Carcharorion:
    - 0808 808 2003 (rhadffôn, gan gynnwys y rhan fwyaf o ffonau symudol)
    - Mae'r wefan yn cynnwys fideos i deuluoedd sy'n dangos realiti bywyd yng ngharchardai'r DU - www.prisonersfamilies.org

**Am ragor o gymorth, cysylltwch â ni drwy cyp@prisonadvice.org.uk**

Rydyn ni'n ddiolchgar i Porticus am eu cefnogaeth hael i Raglen Routes 2 Change, ac i Garchar Ei Fawrhydi Brixton, Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar Ei Fawrhydi Isis, a Chyfarwyddiaeth Grŵp Carchardai Llundain, am ganiatáu i'r gwaith hwn ddigwydd.

Diolch i Jo Ebrey, Ysgol Bryn Alyn; Jacquie O'Toole, Ysgol Gynradd Gwersyllt; a June, Cheryl, Bobbi-Jo a'r holl dîm yn Sefydliad Blynyddoedd Cynnar Llundain (LEALF).



Pecyn Cymorth i Ysgolion

# Colli rhywun rydych chi'n ei garu

## Y Blynyddoedd Cynnar – trafod carchariad

Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact), 29 Peckham Road, London, SE5 8UA
Rhif Elusen 219278 | Rhif Cwmni 356443



## Cysylltiadau â nodau datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol

- Dangos dealltwriaeth o'u teimladau nhw a theimladau pobl eraill
- Dangos sensitifrwydd ac empathi tuag at eich teimladau eich hun a theimladau pobl eraill
- Mynegi eu syniadau a'u teimladau

## Canllawiau i Athrawon

Gallwch ddefnyddio'r stori a'r cwestiynau yn ystod amser cylch gyda grŵp neu fel gweithgaredd un-i-un gyda phlentyn rydych chi'n gwybod y mae carchariad yn effeithio arno.

Mae'r stori a'r sgyrsiau'n trafod carcharu un o'n hanwyliaid, sy'n gallu bod yn bwnc anodd i blant ei brosesu ac sy'n gallu arwain at emosiynau cymysg, gan gynnwys dicter a galar. Maent hefyd yn ymdrin â'r themâu o golli a gweld eisiau rhywun. Cymerwch amser i ystyried plant y gallai'r themâu hyn effeithio'n benodol arnynt, efallai oherwydd profedigaeth neu chwalfa deuluol.

Os yw carchariad yn effeithio ar blentyn, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd na fyddwch efallai'n gwybod hynny, ac efallai na fydd y plentyn yn deall yn iawn.

Bydd angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau mewn ymddygiad yn y dyddiau ar ôl y sesiwn ac ymateb i anghenion plant i gael cysur a sicrwydd.



## Adnoddau

- Llyfr Pact: 'While Daddy is Away'
- Gwrthrych siarad

## Darllen

Darllenwch y stori unwaith eto i'r grŵp neu i'r plentyn.

## Archwilio

Gofynnwch i'r plant ddod o hyd i luniau yn y llyfr sy'n dangos yr emosiynau canlynol – hapus, trist, chwerthin, ypset.

Ailadroddwch y tudalennau lle mae'r ferch a dadi yn gwneud gweithgareddau (amser bath, coginio, darllen, chwarae deinosoriaid)

Gan ddefnyddio'r gwrthrych siarad, gofynnwch, "Beth yw'r peth mae'r ferch yn y stori yn hoffi ei wneud fwyaf gyda'i thad?"

Rhowch lun o ferch yn siarad â Mami.

"Mae tad y ferch fach yn gorfod byw yn rhywle arall am gyfnod. Sut mae'r ferch fach yn teimlo gan fod dadi wedi mynd i ffwrdd?"

"Gyda phwy y gall hi siarad â nhw pan fydd hi'n drist?"

Rhannwch luniau o'r ferch yn chwarae gyda'r oedolion eraill yn ei bywyd

"Pwy arall sydd yna i ofalu amdani pan fydd dadi wedi mynd i ffwrdd?"

Gofynnwch, "Pwy yw'r bobl sy'n gofalu amdanoch chi?"

"Pan fyddwch chi'n colli rhywun, beth allwch chi ei wneud er mwyn teimlo'n well?"

## Gweithgareddau dilynol

Ar ôl trafod pwnc anodd, mae'n bwysig cynnig amrywiaeth o weithgareddau trochi er mwyn rhoi'r lle sydd ei angen ar blant i brosesu eu hemosiynau. Gallai hyn gynnwys:

- **Chwarae yn yr awyr agored –** efallai y bydd rhai plant yn elwa o chwarae heb strwythur yn yr awyr agored i atgyfnerthu eu hymdeimlad o ryddid.
- **Chwarae yn y byd bach –** efallai y bydd plant eisiau mynegi eu teimladau drwy chwarae, gan ddefnyddio teganau sy'n cynrychioli cartrefi a theuluoedd.
- **Chwarae synhwyraidd –** annog gweithgareddau synhwyraidd i helpu plant i hunanreoli ar ôl profi emosiynau cryf.

Cadwch lygad barcud am arwyddion o ofid a byddwch yn barod i gysuro'r rhai sydd mewn angen.

Byddwch yn effro i arwyddion gofid a chynigiwch dawelwch meddwl i'r rheini sydd ei angen

